



---

**CYFLEU TAPIAU A GWAITH PAPUR AC IAWNDAL PENODEDIG**

7 Mawrth 2016

---



Yn gyffredinol ar hyn o bryd mae'r drefn yn caniatáu codi ffi os yw deunydd cyfleu yn hwyr neu'n wallus yn seiliedig ar swm o £100 y dydd yn achos tapiau a £50 y dydd ar gyfer gwaith papur.

Er mwyn symleiddio'r drefn a rhoi gwell arweiniad o'r symiau a allai fod yn ddyledus mi fydd S4C ym mabwysiadau'r canllawiau canlynol o'r 4ydd o Ebrill 2016 os oes angen dychwelyd tapiau neu os yw'r gwaith papur yn hwyr.

Fe'ch atgoffir o'r angen i gyfeirio pob cais i newid dyddiad cyfleu rhaglen at **Llion Iwan** yn yr adran gynllunio trwy e-bost ([llion.iwan@s4c.cymru](mailto:llion.iwan@s4c.cymru)) gan gopïo eich comisiynydd perthnasol. Bydd Llion neu aelod o'r tîm wedyn yn ymateb ar e-bost a chadarnhau a fydd y newid yn bosib ai peidio. Bydd hyn yn sicrhau bod y cwmni cynhyrchu ac S4C yn glir pryd bydd disgwyl i'r tâp gael ei gyfleu i S4C.

Byddwn yn monitro'r sefyllfa ac yn ail edrych ar y drefn o godi ffi dyddiol am gyfleu tapiau neu ffeiliau'n hwyr yn hwyrach yn y flwyddyn. Yn y cyfamser byddwn yn parhau i gadw'r hawl i ddiwynnu iawndal ariannol penodedig o £100 y diwrnod o ran y Copi Darlledu.

### Dychwelyd Tapiau

Yn hytrach na swm dyddiol os bydd S4C yn gorfod gyrru tapiau yn ôl at y cynhyrchydd bydd y swm yn ddibynnol ar union natur y gwaith ychwanegol fydd angen i S4C ei wneud. Mae'r tabl isod yn nodi'r ffioedd fydd yn cael eu codi.

<b>Costau Wrth Ail Gyfleu Deunydd</b>		
<b>Ail Llwytho i BSM/Dalet</b>		
	Hyd at 30'	60' a drosodd
Tap HD neu SD neu Ffeil	£75+TAW	£150+TAW
<b>Ail Greu ar gyfer Gwasanaethau Mynediad sef - Is Deitlo, Arwyddo a Llun Ddisgrifio</b>		
	Hyd at 30'	60' a drosodd
Tap HD neu SD neu Ffeil	£75+TAW	£150+TAW
<b>Uchod yn cynnwys elfennau staff/techengol/ gweinyddol</b>		

### Gwaith papur

Ar hyn o bryd mae S4C yn nodi y gellir codi hyd at £50 y dydd am bob diwrnod y mae'r wybodaeth am y rhaglen(ni) yn hwyr. O hyn ymlaen, lle bo elfen o'r gwaith papur angenrheidiol heb ei gyfleu i S4C o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad cyfleu yn y cytundeb, bydd gan S4C yr hawl i gymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau derbyn y gwaith papur priodol ar gost y cwmni. Fe fydd gan S4C yr hawl i naill ai ddiwynnu'r costau rhesymol yma oddi ar unrhyw arian sy'n daladwy i'r cwmni neu ddanfôn anfoneb i'r cwmni am y costau. Yr uchafswm y bydd S4C yn codi bydd £500 am bob rhaglen/bennod slot 30 munud (pro rata) lle nad yw'r wybodaeth angenrheidiol wedi ei gyfleu.

### Canllaw Gofynion Cyfleu

Mae'r canllaw sy'n rhoi'r cefndir i'r angen am gyfleu yn brydlon ynghyd â nodiadau esboniadol i'r hyn sydd yn ofynnol yn y cytundeb wedi ei ddiweddarau. Mae copi i'w ganfod ar y [wefan cynhyrchu](#).